**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 am.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S A Smith | Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr |
| C Everett | Clerc a Swyddog Monitro |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 MAI 2016

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 Gofynnodd y DBST am newid cofnod 9.6 i ddarllen fel a ganlyn:

> 9.6 *Nodwyd bod* ***system integredig newydd i reoli cysylltiadau (ICCS)*** *yn cael ei phrynu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, a gwneir hyn i gyd-fynd â gweithredu'r rhaglen genedlaethol.*

3.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir ar yr amod bod y newid uchod yn cael ei wneud.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 MONITRO PERFFORMIAD 2016-17

5.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad, ac aeth â'r aelodau drwyddo, i roi gwybodaeth am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella yn chwarter cyntaf 2016-17, sef Ebrill i Fehefin 2016.

5.2 Da oedd nodi y bu, rhwng Ebrill a Mehefin 2016, lai o ddigwyddiadau tân nag a gofnodwyd erioed o'r blaen, sef 535 o gymharu â 673 yn yr un cyfnod yn 2015-16. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y galwadau am wasanaethau arbennig o gymharu â'r un cyfnod yn 2015, a hynny oherwydd llifogydd ym Mehefin 2016.

5.3 O gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu cynnydd bach yn nifer yr anheddau lle bu tân ond lle nad oedd larwm mwg yno; ystyrid bod hyn yn siomedig ond rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r diffoddwyr tân yn gosod larymau mwg ac yn cynnal archwiliad diogelwch yn y cartref yn dilyn digwyddiad tân mewn cartrefi o'r fath a hefyd yn cynnig archwiliadau diogelwch yn y cartref i eiddo cyfagos.

5.4 Nodwyd hefyd fod 94.1% o'r bobl a fu mewn tân damweiniol mewn cartref wedi llwyddo i ddianc heb gymorth a heb niwed, o gymharu â 68.1% yn yr un cyfnod yn 2015-16; gellid priodoli hyn i gael larwm mwg sy'n gweithio ac ymarfer cynllun dianc wedi'i deilwra i anghenion y bobl sy'n byw yno.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

6 DANGOSYDDION PERFFORMIAD Y SECTOR

6.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol wybod i'r Aelodau am y gwaith i ddatblygu dangosyddion perfformiad newydd y sector ar gyfer Cymru gyfan.

6.2 Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i osod y dangosyddion perfformiad strategol, nodwyd ei bod yn ofynnol bellach i ATAau ddatblygu eu 'Dangosyddion Perfformiad eu hunain ar gyfer y sector Cymru gyfan', a hynny "drwy ddull partneriaeth lle cytunir ar gysondeb o ran diffiniadau, dulliau cofnodi a chyfrifiadau". Mae swyddogion o'r tri GTA wedi cydweithio i lunio cyfres o ddangosyddion perfformiad y sector ar gyfer Cymru gyfan, gyda chanllawiau ar ddiffiniadau, dulliau cofnodi a chyfrifiadau. Bydd y swyddogion yn parhau i adolygu'r gyfres gychwynnol hon er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gymwys a bod cysondeb wrth gofnodi.

6.3 Dywedodd y DBST fod y dull hwn ar y cyd yn dangos y manteision o weithio dan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, ac y bydd datblygu diffiniadau cyson yn ei gwneud yn haws i gymharu a meincnodi data yn y dyfodol. Diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a oedd yn arwain y gwaith ledled Cymru.

6.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu dangosyddion perfformiad newydd y sector a chytuno arnynt; a**

**(ii) cymeradwyo cynnwys dangosyddion perfformiad newydd y sector yn nogfen asesiad perfformiad blynyddol drafft yr Awdurdod 2015/16 a gaiff ei hystyried gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016.**

7 ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG

7.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2015-16 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

7.2 Canmolodd y Cyng. L W Davies y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg dros y blynyddoedd, a da oedd nodi bod mwy o staff yn meddu ar lefel uwch o sgiliau Cymraeg erbyn hyn. O ran y safon lefel 2, cadarnhawyd mai prawf sgwrsio sylfaenol yn Gymraeg oedd hwn.

7.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg; a**

**(ii) cymeradwyo adroddiad monitro 2015-16 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.**

8 YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R AMCANION DRAFFT GWELLA A LLESIANT 2017-28

8.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwaith o ddylunio'r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfer yr amcanion drafft gwella a llesiant 2017-18. Roedd y strategaeth wedi cael ei hadolygu yn dilyn ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad y llynedd.

8.2 Diolchodd y Cyng. McGuill i'r swyddogion am yr adroddiad, a nododd mai peth calonogol oedd gallu cyrraedd dros 55,000 o bobl drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Da oedd nodi bod ymgynghoriad 2016-17 wedi cael dros 300 o ymatebion, o gymharu â'r pedair blynedd flaenorol pryd y cafwyd 29 o ymatebion ar gyfartaledd.

8.3 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad a nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Er hynny, nodwyd bod ansawdd yr ymateb yn ffactor pwysig i'w ystyried a bod sylwadau rhai ymatebwyr yn rhoi mwy o ddylanwad a chyfeiriad i'r ymgynghoriad na'i gilydd.

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi llwyddiant strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd 2016-17;**

**(ii) cefnogi'r strategaeth ymgynghori ar gyfer amcanion drafft gwella a llesiant 2017-18.**

9 CYNLLUN TREIALU CYD-YMATEB

9.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am hynt a chanfyddiadau cychwynnol y cynllun treialu cyd-ymateb sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

9.2 Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi meithrin perthynas weithio dda gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar y prosiect, a bod dealltwriaeth ragorol rhwng staff y ddwy Ystafell Reoli ynglŷn â'r trefniadau galw allan. I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd y bydd diffoddwyr tân yn ymateb fesul dau bob amser, a hynny mewn cerbyd arbennig i'r diben, tra bydd ambiwlans ar ei ffordd i'r cyfeiriad ar yr un pryd.

9.3 Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i'r unigolion ar orsafoedd a oedd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan, a theimlent fod y cynllun treiau'n rhywbeth gwerth chweil ac roeddent o blaid ymestyn y cynllun tan fis Chwefror 2017. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r cyrff cynrychioliadol ac i YGAC am eu cydweithrediad.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a chroesawu'r cynnydd a wnaed gan GTAGC wrth ddatblygu'r cynllun cyd-ymateb, a'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd drwy ymyriad gan GTAGC i 63% o'r anafusion.**

10 PROSIECTAU CYDWEITHREDOL RHWNG Y TRI GWASANAETH BRYS

10.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y prosiectau cydweithredol sydd wrthi'n cael eu datblygu rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

10.2 Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cydweithredu'r Tri Gwasanaeth, a daw ei aelodau o'r tri gwasanaeth brys; mae'r Bwrdd yn bodloni awydd Llywodraeth Cymru i'r ATAau weithio'n fwy cydweithredol ar lefel strategol ac i ddatblygu rôl diffoddwyr tân.

10.3 Erbyn hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri bwrdd prosiect i edrych ar yr Ystafell Reoli, y Gwasanaethau Cefnogol ac Atal ac Ymateb. Mae bwrdd prosiect yr Ystafell Reoli yn ystyried rhagor o gydweithio o fewn y Ganolfan Gysylltiadau ar y Cyd a'r tu hwnt, gan gynnwys rhannu systemau a hyfforddiant. Mae bwrdd prosiect y Gwasanaeth Cefnogol wrthi'n canolbwyntio ar rannu fwy ar y fflyd, gwasanaethau'r Gymraeg ac ystadau.

10.4 O ran bwrdd prosiect Atal ac Ymateb, mae'r aelodau wedi cael gwybod o'r blaen am wahanol fentrau a chynlluniau treialu yn yr adran diogelwch cymunedol, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref; staff Heddlu Gogledd Cymru a GTAGC yn cynnal asesiadau perygl cwympo; hyfforddiant ar leihau troseddu ar gyfer staff GTAGC; a chyn bo hir bydd GTAGC yn rhoi cymorth i ddod o hyd i bobl sydd ar goll.

10.5 Nodwyd hefyd y bydd tîm treialu ymateb yn cael ei lansio ar 1 Awst 2016 a fydd yn golygu bod staff GTAGC yn cael eu hanfon allan yn Sir Ddinbych at achosion o gwympo heb anaf yn y cartref, a hynny ar ran YGAC gyda'r nod yn y pen draw o olygu nad oes angen i ambiwlans fynd allan. Bydd y tîm hefyd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau ataliol ac ymyriadau, yn ogystal â mynd at alwadau 'pryder am ddiogelwch' ar ran HGC. Cafodd y prosiect hwn ei ariannu drwy cais ar y cyd gan GTAGC ac YGAC i'r Gronfa Iechyd; defnyddir y £100k i redeg y prosiect ac i'w brofi fel cysyniad, ond daw'r prosiect i ben pan ddaw'r cyllid i ben ymhen blwyddyn.

10.6 Roedd yr Aelodau'n croesawu'r mentrau hyn ac yn nodi bod hyfforddiant addas wedi cael ei roi i'r holl staff sy'n cymryd rhan yn y gwahanol brosiectau peilot.

10.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a chroesawu a chefnogi'r prosiectau cydweithredol a'r cynlluniau treialu sydd yn eu lle.**